PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 10 Mawrth 5, 2026 50c.

## Caersalem, Pontyberem



Dr Llinos Roberts oedd siaradwraig wadd criw Caersalem ar nos Lun 2 Chwefror. Mi wnaeth gyflwyno ei phrofiadau fel meddyg a sôn am ei thaith addysgu a hyfforddi. Cafwyd noson arbennig yn ei chwmni a mawr yw ein diolch iddi.

# Bendithion, nid ofergoelion!

## Noson o gyfeillgarwch yn Saron, Creunant



Ar nos Wener, 13 Chwefror, cynhaliwyd noson arbennig yng nghapel Saron, Creunant – noson o gyfeillgarwch, cydweithio a bendithion. Er bod rhai yn cysylltu dydd Gwener y 13eg ag anlwc, nid oedd dim lle i ofergoelion yn Saron – dim ond llawenydd a diolchgarwch a brofwyd gennym.

Roedd y noson yn dystiolaeth o ysbryd cymunedol cryf yr eglwys. Daeth pawb ynghyd i baratoi'r bwyd, gyda'r aelodau a'r cyfeillion yn cydweithio i goginio cyri blasus a fu'n wledd i 65 o bobl. Roedd wirioneddol yn ymdrech ar y cyd, gyda phawb yn cyfrannu eu hamser a'u hegni i sicrhau llwyddiant y digwyddiad.





Yn ogystal â'r bwyd, trefnwyd cwis difyr a raffl gyffrous. Y wobr gyntaf oedd gwyliau ym Mhenfro – gwobr hael iawn a werthfawrogwyd yn fawr – a'r ail wobr oedd taleb bwyd gwerth £10. Gwnaeth y ddwy elfen yma ychwanegu at hwyl a chyffro'r noson.

Hoffem estyn diolch diffuant i dair siop leol Tesco am eu rhoddion hael tuag at y digwyddiad. Roedd eu cymorth yn amhrisiadwy ac yn enghraifft wych o gefnogaeth gan y gymuned leol.

Yn ogystal â mwynhau'r cyri, y cwis a'r raffl, cafwyd cyfle i godi arian ar gyfer Starfish Kids Camp Aberdâr. Llwyddwyd i godi dros £750 – swm rhagorol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r plant a gefnogir gan y camp.

Roedd hon yn wir yn noson o gyfeillgarwch – noson a atgyfnerthodd y cysylltiadau rhyngom ac a'n hatgoffodd o werth cymdeithas Gristnogol. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

**Rhys Locke**


# WRTH Y LLYW #11

Mae asiantaeth castio teledu a ffilm wedi cyhoeddi hysbyseb yn apelio am *extras,* yn arbennig felly, o Birmingham a Gorllewin Canolbarth Lloegr i fod â rhan yn y gyfres diweddara o'r ddrama gangster eiconig: *Peaky Blinders*.

1982, â finnau'n 13 mlwydd oed; es i gyda Geraint, fy mrawd mawr i Our Price Records yn y dre'. Mae gen i'r hen 45 o hyd – yn *scratches* i gyd. Y record gyntaf imi brynu erioed oedd *A Town called Malice* gan The Jam. Bues i'n esgus bod yn 'Mod' am gyfnod (chwe mis o leiaf): Owain llawn gwrthryfel tanllyd yn erbyn pawb a phopeth ... hyd nes i fy nhad a mam rhoi stop ar y peth. Ond, yr un yw'r dyn a'r bachgen o hyd. Mae'r blynyddoedd yn cuddio, ond nid ydynt yn claddu. Rhyw ddydd, byddaf yn troi fyny i'r oedfa fore Sul ar gefn Vespa, mewn cot 'parker' werdd.

Dydd Mercher, 11 Chwefror daeth cyfle i ymweld am y tro cyntaf erioed â Choleg Trefeca. Diben yr ymweliad oedd cyfarfod a thrafod gyda dau berson arbennig iawn o'r World Communion of Reformed Churches (WCRC): yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, y Parchg Philip Vinod Peacock a Hanns Lessing, yr Ysgrifennydd Gweithredol ar gyfer Cymundeb a Diwinyddiaeth.

Cystal cyfaddef fy mod yn ymwybodol o'r WCRC, ond o bell; gwybod amdanynt o brofiad benthyg, sgyrsiau arwynebol a darllen brysiog, ond oherwydd y prynhawn hwnnw yng Ngholeg Trefeca, mi wn fod gennym fel Annibynwyr llawer i dderbyn a dysgu gan y WCRC, a




hynny'n bennaf efallai o'r hyn sydd iddynt yn echel gweithredu: Gair Duw, galwad yr Ysbryd Glân, ymrwymiad dygn dyfal, o ddifrif 'i gadw undeb yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd' (Effesiaid 4:3). Mae'r *koinonia* byd-eang hwn yn cydgyffesu, yn cyd-dystio, yn cydweithredu fel y gall yr holl ddynoliaeth a'r holl greadigaeth fyw bywyd yn ei lawnder: 'fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.' (Ioan 10:10).

Gellid teimlo mai dim ond *extras* ydym, fel unigolion ac eglwysi, yn nrama fyd-eang o drais a chreulondeb. Lle bynnag rydym – canol dinas neu dre' cefn gwlad – mae pawb ohonom yn byw yn *A Town called Malice*. Y mae pawb heddiw o fewn y dre' galed honno. Aeth byw y tu allan iddi yn amhosibl. Sylweddolais, wedi treulio ychydig oriau yng nghwmni Hanns a Philip fod angen ychydig o Jam ar ein crefydd fach ni:

Time is short
Life is cruel
But it's up to us to change this town called Malice.

**Owain Llŷr Evans**

# Hanes Ebeneser Caerdydd 1826–2026

Ym mis Mawrth eleni y mae eglwys Annibynnol Ebeneser Caerdydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 200 oed. Bydd nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i nodi'r garreg filltir bwysig hon yn hanes yr eglwys. Hoffem rannu gyda chi ychydig o'r hanes cychwynnol.

## Cofio'r dechrau

Tref fechan oedd Caerdydd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; dywedir mai 1,875 oedd ei phoblogaeth ym 1801. Pan benderfynodd yr ychydig Annibynwyr Cymraeg sefydlu achos ym 1826, daethpwyd o hyd i ystafell i addoli Duw ynddi yn Heol y Porth (Westgate Street) gerllaw'r afon, lle mae'r maes parcio aml lawr heddiw. Hen gerbyty tŷ tafarn bregus a diolwg oedd yr ystafell. Deuai'r glaw drwy'r to pan ddisgynnai'n drwm ond i ychydig o weithwyr tlawd yr oedd y tâl isel a godwyd am y lle yn ystyriaeth bwysig.



Roedd cael lle i addoli yn gyfan gwbl yn Gymraeg, heb unrhyw amheuaeth, yn gwneud iawn am bob diffyg. Dywedai Lewis Powell, y gweinidog cyntaf, 'Mae yn rhaid i'r Ebeneser presennol wneud bow i'r hen goach-house, fel y dylai pob Cathedral wneud bow i ystabl Bethlehem.' Y brodyr amlycaf wrth sefydlu Ebeneser oedd Daniel Richards, William Richards, Samuel Rees, Evan Thomas a Philip John. Corffolwyd hwy yn eglwys ym mis Mawrth 1826 ac y mae pob lle i gredu mai'r Parchg Thomas James o Womanby Street gerllaw a wnaeth hynny.

Y cyntaf i bregethu yn y cerbyty oedd y Parchg Shadrach Davies o'r Maendy, ond pregethwyd yno hefyd gan weinidogion amlwg eraill. Rhaid enwi un a fu'n garedig iawn i'r achos newydd, sef y

*parhad ar dudalen 6*



Yr Adran
Gydenwadol

MAWRTH 05 2026 RHIF 262

# Diwrnod Dros Gymru

Daeth dros fil o bobl at ei gilydd o Gymru benbaladr ddydd Sadwrn, 28 Chwefror, ar drothwy gŵyl ein nawddsant, i Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, i weddïo dros Gymru a chlywed am y pethau newydd y mae Duw'n eu gwneud yma heddiw. Fe ddaethon nhw ynghyd – yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, yn bobl hŷn ac yn genhedlaeth newydd, yn arweinwyr ac yn lleyg, yn ddynion ac yn ferched o'r de a'r gogledd, y gorllewin a'r dwyrain, o enwadau traddodiadol ac o eglwysi newydd. Diolch i fudiad 100 i Gymru am y weledigaeth, y trefniadau a'r hyrwyddo oedd wedi bod i baratoi ar gyfer yr ail ddigwyddiad o'r fath a welodd alw'r fath gynulliad o Gristnogion at ei gilydd yng Nghymru. Mae'r mudiad yn bodoli er mwyn ysgogi plannu eglwysi byw ar draws y wlad.



Yn y llun (uchod) fe welir addolwyr ifanc (Gen Z fel y'i gelwir) a gynhaliodd noson o weddi yn Llandrindod y noson cynt. Fe gawson nhw gyfle i weddïo dros bobl yn ystod un o'r gwasanaethau gan ddal gafael yn yr addewid ar ddiwedd Salm 27: 'Yr wyf yn sicr y caf weld daioni'r ARGLWYDD yn nhir y rhai byw.'




Cafwyd negeseuon grymus o anogaeth gan y siaradwyr. Cyfeiriodd Dr Andrew Ollerton o Gymdeithas y Beibl at y gwahaniaeth y byddem yn gallu ei wneud gyda'n gilydd i'n gwlad pe bai cariad Crist yn ein cymell mewn gwirionedd, yn ein gorfodi ac yn ein gyrru yn ein blaenau (2 Corinthiaid 5:14).

Canolbwyntio ar y bwriad a welir gan Iesu mewn adnod benodol wnaeth Steff Morris, Llandysul, sef: "Rhaid i mi gyhoeddi'r newyddion da am Dduw yn teyrnasu yn y trefi eraill hefyd. Dyna pam dw i wedi cael fy anfon yma." (Luc 4:43; BNET).

Yn sgil neges Steff, cyfnewidiwyd bandiau garddwrn ag enwau llefydd yng Nghymru oedd ar galonnau'r rhai oedd yno. Mewn grwpiau bychain, cafwyd cyfle i weddïo dros y llefydd hynny yng Nghymru sy'n brin o dystiolaeth fyw i'r Arglwydd Iesu. Fe'n hanogwyd i feddwl, wrth deithio hyd a lled ein gwlad hardd, sut roedd y bobl yn y clwt bychan yma neu'r pentref acw neu'r dref hon yn clywed yr Efengyl heddiw.




Cafwyd cyfnodau o rannu hanesion ac o drafod, o weddi ac o fawl yn ystod y dydd, gyda moliant dwyieithog gan y tîm mawl yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mewn neges ar y cyfryngau cymdeithasol, dyfynnodd Cath Woolridge o'r Mudiad Sound of Wales yr adnod: 'Pan adferodd yr ARGLWYDD lwyddiant Seion, yr oeddem fel rhai wedi cael iachâd; yr oedd ein genau yn llawn chwerthin a'n tafodau yn bloeddio canu. Yna fe ddywedid ymysg y cenhedloedd, "Gwnaeth yr ARGLWYDD bethau mawr iddynt hwy".' (Salm 126:1)

Gan freuddwydio, gweddïo, wylo, canu, dal ati, gobeithio, ildio, eiriol, a chyhoeddi gyda'r eglwys ar draws Cymru heddiw @**100.cymru**, ychwanegodd mai:

> Iesu ydy'r weledigaeth,
> dyhead ein cenedl,
> y gobaith i Gymru,
> o'r fath ddiwrnod –
> o'r fath Waredwr.

Dyma sylw Keith Williams oedd wedi teithio o Wessex yn Lloegr i fod yno: 'Roedd yr addoli'n fendigedig – amser nid o ymweliad Duw ond o'i breswylfa efo ni. Mae Duw yn dod i aros gyda ni. Fel un sy'n byw yn Lloegr, roedd cael addoli yn Gymraeg yn rhywbeth arbennig iawn. Diolch i 100iGymru, dwi'n credu fy mod wedi derbyn eneiniad, a dwi'n mynd adref yn wahanol. Mae'r Arglwydd yn gweithio, hyd yn oed ar y ffordd adref!'

*Huw Powell-Davies*

## Y GRAWYS – WYTHNOS 3

# Cysoni hunaniaeth a phrofiad




### Darlleniad

*2 Corinthiaid 5:11–21*

### Myfyrdod

Mae digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf hyn wedi tanlinellu rhyng-gysylltiad ein bywydau, nid yn unig ar lefel y gymuned leol, ond yn rhyngwladol. Ond er gwaethaf pwysau'r dystiolaeth sy'n dangos yr angen i ni ddod at ein gilydd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ddynoliaeth gyfan, mae'n ymddangos bod y grymoedd sy'n ein tynnu ar wahân yn cryfhau. Gall deimlo fel petai cymdeithas yn mynd yn llawer mwy dig a gelyniaethus.

Gyda'i galwad i'r Weinidogaeth Gymodi, mae gan yr Eglwys gyfle i ddod â gobaith ac iachâd drwy wrando ar y boen sydd dan y dicter: colli gobaith am y dyfodol, ymdeimlad o ddirywiad neu ddiffyg cyfleoedd, dieithrio, arwahanrwydd neu deimlo heb gefnogaeth neu nad oes neb yn poeni amdanoch. Mae profiad bugeiliol yr Eglwys yn ein tywys tuag at wrando pwrpasol, sydd nid yn unig yn ymwneud â chlywed poen pobl, ond bod yn ymwybodol o'u hanghenion ac eiriol dros eu hawliau.

Un o'r prif rwystrau rhag dod â phobl at ei gilydd i weithio ar gyfer dyfodol gwell yn aml yw'r diffyg ymdeimlad o orffennol a rennir. Mae gwahanol brofiadau a safbwyntiau ynglŷn â'r gorffennol yn ffurfio rhaniadau dwfn a gall anghyfiawnderau neu wrthdaro yn y gorffennol ffurfio cysgod mawr dros gymunedau. Mae'r Eglwys yn dod â'r gobaith o gymod i'r cwestiynau hyn a'r argyhoeddiad y gellir ffurfio perthnasoedd newydd o barch, gwirionedd a chyfiawnder hyd yn oed lle na ellir dad-wneud anghyfiawnderau'r gorffennol.

Nid yw'r Eglwys yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn o raniadau – ddoe neu heddiw – o bellter ond yn hytrach fel rhan o'r gymuned, yr effeithir arni gan yr un pethau sy'n brifo a'r un tensiynau. Mae rôl arwain yr Eglwys yn golygu bod ganddi gyfrifoldeb arbennig i gymryd rhan mewn hunan-fyfyrio beirniadol ac i fodelu haelioni a gras wrth gymryd camau sy'n gwneud ein hymrwymiad i gymodi yn rhai gwirioneddol a gweladwy.

Gwnawn hynny yn ymwybodol bod rhodd Duw o gymod ar gael i bob un ohonom, ar lefel bersonol, fel ffynhonnell adnewyddu a gobaith. Gall y neges hon fod yn achubiaeth i'r sawl sydd efallai wedi cychwyn ar lwybrau niweidiol neu ddinistriol i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd yn ôl i le o berthyn a chysylltiad.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Pan fyddwch chi'n meddwl am y prif glwyfau sy'n sail i densiynau yn eich cymuned, beth sy'n dod i'r meddwl?
- Ble welwch chi'r rhain yn cael eu cyfeirio atyn nhw neu eu trafod?
- Ydych chi'n gweld yr Eglwys yn dod â gweledigaeth o gymod i'r cwestiynau hyn? Os nad ydych, pam?

### Gweithredu

- Nodwch gyfleoedd i weddïo am gymodi yng nghyd-destun eich eglwys. Allech chi fod yn fwriadol ynglŷn ag enwi rhaniadau penodol yr hoffech eu gweld yn cael eu gwella?
- Archwiliwch gyfleoedd i gyfathrebu am gymodi y tu hwnt i'r eglwys, gan gynnwys y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol, sut y gellid defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â materion poenus yn eich cymuned?
- Ystyriwch gynnig astudiaeth Feiblaidd ar thema cymodi i archwilio pa faterion y mae hyn yn dod i'r amlwg yn eich cyd-destun.

### Gweddi

Duw trugaredd a thosturi,
Gweddïwn y gallwn fod yn driw i'th alwad
i weithio dros gymod o fewn ein cymunedau.
Boed i ni barhau i herio ein hunain
i ymestyn tu hwnt i'n parth o gysur
i fod yn agos at y rhai sy'n ymdrechu.
Helpa ni i wrando gyda thosturi a phwrpas,
yn enwedig pan fydd profiadau pobl eraill
yn heriol neu'n annifyr.
Cadw o'n blaenau'r gobaith
hyd yn oed lle mae briw y gorffennol wedi bod yn fawr
a'r clwyfau'n ddwfn
gellir adnewyddu popeth yn dy gariad.

Amen.

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 8 Mawrth, am 7:30yh – Diwrnod Rhyngwadol y Merched**
Ar ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, mae Lowri Morgan yn Llundain i gwrdd â menyw ifanc sy'n teithio'r byd fel gohebydd tramor. Mae Caitlin Kelly, sy'n byw ac yn gweithio yng ngorllewin Affrica, yn ymwybodol iawn o'r ormes a'r anghyfiawnder sy'n llesteiro bywydau miliynau o fenywod. Ac mae talent, creadigrwydd ac arweiniad Caitlin yn esiampl ddisglair i eraill. Cawn fwynhau gwledd o emynau a pherfformiad gan y ddeuawd ifanc Hannah Edwards ac Eiriana Jones-Campbell.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 8 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Andrew Settatree

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 8 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon Jenny Knott**
Oedfa dan arweiniad Jenny Knott

# Cymorth Cristnogol – y Cwrdd

Mae gwahoddiad cynnes iawn i chi ymuno â thîm Cymorth Cristnogol Cymru ar gyfer cyfarfodydd boreol arbennig ym mis Mawrth – 17 Mawrth ym Mhenarth ac 18 Mawrth yn Wrecsam – pan fyddwn yn cyflwyno gwaith ein partner, Beacon of Hope o Kenya.

Y siaradwyr fydd:

- Janet Ngombale, Rheolwr Rhaglen a Phartneriaeth Cymorth Cristnogol yn Kenya,
- Jane Wathome, sefydlydd Beacon of Hope, partner Cymorth Cristnogol yn Nairobi, fydd dan sylw yn ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, 10–17 Mai.

Bydd apêl Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar brofiad mamau yn Nairobi sy'n brwydro'n ddyddiol i fwydo'u plant llwglyd. Mae'r argyfwng hinsawdd yn amharu ar y cyflenwad bwyd ac yn golygu bod prisiau bwyd yn codi ac yn rhy ddrud ar gyfer nifer helaeth o deuluoedd. Trwy fenter ysbrydoledig Imarisha Kilimo ('cryfhau amaethyddiaeth' yn Swahili), rydym yn helpu teuluoedd i sicrhau bywoliaeth gynaliadwy ac i dyfu bwyd maethlon i fynd i'r afael â straen ddi-baid tlodi trefol.

Ymunwch â ni am fore arbennig o gymdeithasu a straeon ysbrydoledig gyda Janet a Jane yn ystod eu hymweliad byr â Chymru. Cawn gipolwg ar ein gwaith dyngarol yn fyd-eang a'n hymgyrchoedd cyfredol, yn ogystal â rhannu syniadau creadigol am godi arian. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn dysgu sut y gallwn wneud gwahaniaeth parhaol yn yr ymdrech yn erbyn tlodi.




## Y Cwrdd | The Gathering

📅 Dydd Mawrth, 17 Mawrth, 10am–12.45pm
📍 Eglwys y Bedyddwyr, Ffordd Stanwell, Penarth
👉 Cofrestrwch ar-lein: Y Cwrdd 2026 | Christian Aid

📅 Dydd Mercher, 18 Mawrth, 10am–12.45pm
📍 Capel y Groes, 10 Stryd Holt, Wrecsam, LL12 7AG
👉 Cofrestrwch ar-lein: Y Cwrdd 2026 | Christian Aid

cymorth cristnogol

# Myfyrdod

## (Cyfarfodydd blynyddol yr Undeb 2025) – yr ail rhan

**Darlleniad: Actau 8:26–40 (Philip a'r Eunuch o Ethiopia)**



Y trydydd pwynt yr ydw i am ei wneud yw'r cyfrifoldeb am rannu'r neges. Hynny yw, pwy sy'n gyfrifol am hynny? Gwaith pwy ydi hyn? Ar y dechrau fe soniais am y credinwyr, oherwydd yr erlid a fu arnynt yn cael ei gwasgaru. 'Gwasgarwyd hwy, *pawb ond yr apostolion*.' (Actau 8:1) Ac fe ddywedir am y rhai aeth ar wasgar; 'teithiasant gan bregethu'r gair.' (Actau 8:4) 'Roedd y credinwyr oedd wedi'u gwasgaru yn dweud wrth bobl beth oedd y newyddion da ble bynnag oedden nhw'n mynd,' yn ôl beibl.net. Mae'n amlwg oddi wrth yr hanes yma ei fod yn waith i bawb sy'n credu. Ddaru'r credinwyr ddim dweud na allent hwy ddim sôn gair wrth neb am Iesu Grist am mai gwaith yr apostolion oedd hynny. Ac yn ein cylchoedd eglwysig ni, sawl gwaith y clywsom ddweud mai gwaith y gweinidog neu'r pregethwr yw hynny? Ein gwaith ni, bawb ohonom ni, yw adrodd y stori.

Wrth ysgrifennu at y Rhufeiniaid, mae Paul yn dyfynnu geiriau Joel 'Oherwydd yng ngeiriau'r ysgrythur, bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei achub, pwy bynnag yw.' (Rhuf. 10:13) Ond mae hynny'n codi cwestiynau ac fe aiff Paul yn ei flaen. 'Ond sut y mae pobl i alw ar rywun nad ydynt wedi credu ynddo? Sut y maent i gredu yn rhywun nad ydynt wedi ei glywed? Sut y maent i glywed, heb fod rhywun yn pregethu?' (Rhuf. 10:14)

Mae'r gair 'pregethu' yn gwneud inni feddwl am rywun yn sefyll mewn pulpud ac yn cyhoeddi gwirioneddau Duw ac felly y mae hi yn eithaf rheolaidd yn ein capeli a'n heglwysi. Ond gall pregethu, sef cyhoeddi a dweud am Dduw ddigwydd mewn lleoedd eraill yn ogystal. Cyhoeddi'r gwirionedd am Iesu Grist wnaeth Philip a gwneud hynny wrth eistedd yn yr un cerbyd â'r Ethiopiad oedd yn gwrando arno.

Gallwn ddweud y stori mewn llawer dull a modd, boed hynny mewn sgwrs neu atebiad i gwestiwn. Pam dy fod ti'n dal i fynd i'r capel? Beth sydd yn mynd ymlaen yn y fan hyn oedd cwestiwn gwraig ddieithr, ddi-gymraeg ychydig yn ôl y tu allan i gapel. Atebodd y gŵr oedd yn cael ei holi fod yna addoliad cyhoeddus yno ar y Sul a bod yna groeso i bwy bynnag sy'n dymuno troi i mewn gan esbonio fod y gwasanaethau'n cael eu cynnal yn y Gymraeg. Nid oedd hynny o bwys i'r wraig gan fod ei phlant yn dysgu'r iaith. A'r Sul canlynol, roedd y teulu cyfan yn yr oedfa.

Yn ein heglwysi heddiw, nid ydym heb ein problemau a'n hanawsterau. Un broblem yw cael pregethwr i gynnal yr oedfa. Ac mae yna un duedd sy'n bryder braidd; oni cheir gwasanaeth pregethwr, ni chynhelir oedfa. Ac os nad oes oedfa yn ein capel ni, fe arhoswn adref. Nid wyf yn dweud hyn fel beirniadaeth o gwbl; dim ond nodi ffaith a dweud gair yn ei bryd, yn y gobaith y gellir cynnal oedfaon gyda mwy o gysondeb. O ddiffyg pregethwr, mae yna doreth o lyfrau sydd â gwasanaethau cyflawn ynddynt y gallwn eu defnyddio. Ac o fod ychydig yn fwy mentrus, gallwn wrando a gwylio pregeth ar sgrin.

Mae Cymdeithas y Beibl wedi cynnal arolwg sy'n nodi y byddai 34% o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn mynd i oedfa pe baent yn cael gwahoddiad. Yn yr un arolwg, nodir mai'r llefydd y byddai pobl yn fwyaf tebygol o fynd iddynt yw'r rhai lle ceir y teimlad o berthyn; lle mae'r bobl yn rhoi'r lle canolog i Dduw ac Iesu Grist a lle mae'r bobl yn byw'r hyn maent yn ei gredu.

Dylai hynny fod yn galondid i ni a rhoi'r hyder inni wahodd rhywrai i ymuno â ni yn ein hoedfaon i addoli ac i glywed y stori ryfeddol sydd gennym i'w hadrodd. Wedi'r cwbl, pwy arall sy'n mynd i ddweud wrth bobl am yr Un a ddisgrifiodd yr Apostol Paul fel 'pen y corff, sef yr eglwys. Ef, [meddai], yw'r dechrau, y cyntaf-anedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ymhob peth. Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswylio ynddo ef, a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd.' (Col. 1:18-20)
Ac yn ddi-os, mae hynna'n newyddion y mae pawb ymhob man wir angen ei glywed yn y dyddiau sydd ohoni.

**Dafydd Roberts**

# Hanes Ebeneser Caerdydd 1826–2026 – *parhad*

Parchg Griffith Hughes, y Groes-wen, Caerffili. Roedd yn wreiddiol o Gwmifor, Llandeilo ac yn bregethwr huawdl. Bu amryw ddiwygiadau yn ystod ei weinidogaeth gan gynnwys yr un yn y Groes-wen ym 1826 pan ychwanegwyd ugeiniau at rif yr aelodau. Ymddengys fod amryw ohonynt a oedd yn byw yng Nghaerdydd wedi ymuno tua'r flwyddyn 1827 â'r achos yn y cerbyty ar anogaeth uniongyrchol Griffith Hughes ei hun.

Er hynny, ac er i eraill o bryd i bryd ymaelodi, parhau'n wan oedd yr achos a mawr oedd pryder yr arweinwyr. Daeth yn eglur i'r aelodau a'r swyddogion na fyddai fawr o lewyrch ar yr eglwys fechan tra parhaent i addoli mewn lle mor ddistadl. Gorfodwyd hwy i sylweddoli bod yn rhaid wrth gartref amgenach i'r eglwys os oedd i fyw a llwyddo. Ar y pryd dyma'r unig achos Annibynnol Cymraeg yn y dref a gwelwyd bod yn rhaid chwilio yn ddi-oed am le i adeiladu capel arno a chael gweinidog sefydlog.

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst*

# Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty'r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.

# Barn Annibynnol

## ‘Am hynny, calonogwch eich gilydd...’ (1 Thesaloniaid 5:11)

Rydym yn byw mewn cyfnod sensitif a phwysig yn hanes yr eglwys leol. Fel cynulleidfaoedd, fe wynebwn newidiadau diwylliannol a chwestiynau newydd ynghylch perthyn a ffydd. Mae nifer ohonom yn ymboeni ynglŷn â’r dyfodol; ond oes yna bethau y gallwn ni eu gwneud er ailadeiladu’n rasol gyda’n gilydd a chryfhau yn ein hyder? Oes, meddwn i! Mae croeso ichi anghytuno wrth gwrs, ond dyma rai awgrymiadau mewn gostyngeiddrwydd.

Mae ein gweinidogion (ac arweinyddion) yn parhau i wasanaethu’n ddidwyll a diflino gydag urddas, er eu bod dan bwysau. Da ni, rhoddwn ddiolch iddynt bob cyfle a gawn a pheidio suddo i ddiymadferthedd yn ein cefnogaeth. Mae’n hanfodol bwysig ein bod yn gwerthfawrogi ein pobl dda ac yn dangos hynny â pharch cadarnhaol.

### Ymateb

Fe allem hefyd geisio sicrhau ein bod yn mynegi ein hymateb wrth wrando ar bregethau. ’Sdim byd gwaeth na sefyll mewn pwlpud a phawb yn eistedd yng nghefn y capel a neb yn ymateb! Os bydd y pregethwr yn defnyddio’r dechneg o geisio codi gwên wrth wneud pwynt diwinyddol o bwys, siawns nad yw bod mewn capel yn stopio hynny rhag digwydd? Os bydd pregethwr yn holi cwestiwn, mae rhyddid gennym i ateb yn ddi-ofn! Nid ceisio ein dal allan y mae, ond ennyn ymateb. Ac os bydd pregeth wedi bod yn fendithiol, rwy’n siŵr bod rhannu hynny’n fendithiol i’r negesydd. Porthwn, adborthwn, a chyfrannu at yr ymdeimlad o gymdeithas yr holl saint (yn arbennig yn ôl ein traddodiad ni fel Annibynwyr).

### Mynychu

Cefnogwn y gweithgaredd sydd yn cymryd lle yn ein Cyfundebau hefyd. Trist o beth yw pan fo siaradwr gwadd o safon yno’n ymdrin â phwnc amserol a dim llawer wedi dod. Trist hefyd yw diffyg cefnogaeth i bwyllgorau gwaith a thrafodaethau er hyrwyddo ein tystiolaeth. Mae troi lan yn golygu cymaint. Pwy a ŵyr na chawn dderbyn rhywbeth llesol o wneud hynny? Maddeuwch hyfdra’r ymadrodd, ond ym myd y theatr fe ddywedir bod angen ‘penolau ar y seddi’! A dyna yw eglwys a chyfundeb – pobl wedi dod i ymgyfranogi a chyfrannu gyda’i gilydd. Fe allwn gael y dechnoleg ddiweddaraf a’r adeilad harddaf ac amlbwrpas, ond heb y bobl, nid yw ddim! Ac mae’n iawn i fynychu hyd yn oed os nad oes awydd arnom – efallai, wedi’r cwbl, mai’r mynychu ddaw â’r moddion gras yn ôl inni fel cyd-Gristnogion.

### Mentro

Mae hanes yn ein hatgoffa fod cyfnodau heriol yn aml wedi troi’n adfywiad. Mae Duw dro ar ôl tro wedi atgyfnerthu’i bobl nid trwy ddileu unrhyw anhawster (yn anffodus weithiau i ni), ond trwy ddyfnhau ffyddlondeb. Os ydym am feithrin hyder – o fewn ein cynulleidfaoedd ac yn ein cymunedau – nid hunanfeirniadaeth chwaith yw’r ffordd ymlaen. Gostyngeiddrwydd a chariad dyfalbarhaus sydd ei angen. Gallwn gydnabod bod angen rhai newidiadau, heb ofni’r methiant posibl yn eu sgil; oherwydd y parodrwydd hwnnw i dyfu sy’n adlewyrchu calon yr Efengyl. Aeddfedrwydd yw’r gallu i fentro’n hyderus fel corff o bobl sy’n dymuno lledaenu a rhwydweithio cariad Crist.

### Cymdeithasu

Y tu hwnt i oedfaon y Sul, mae pobl yn chwilio am gyfleon i gymdeithasu’n gynnes drwy’r eglwys ac i gydweddïo a myfyrio ar y Gair mewn ffyrdd newydd. Gellir meithrin grwpiau bach a system fentora rhwng y rhai hŷn ac iau sy’n cefnogi cydaddoli. Mae’n hollbwysig ceisio datblygu ymdeimlad o deulu. Pan fo pobl o wahanol oedrannau’n dysgu oddi wrth ei gilydd, daw’r eglwys leol yn fyw yn ei hundod yng Nghrist. Mae modd inni ddarganfod ffyrdd amgen a chyffrous o addoli Duw, gan arddel ein traddodiadau gorau yn ogystal. Drwy fod yn agored i arweiniad yr Ysbryd Glân, gallwn ymroi i ddarparu cyfleon lle mae holi a thrafod yn cael eu croesawu yn ein mysg. Da o beth fyddai cynnig mynd i’r afael â brwydrau bywyd go iawn megis gorbryder, pwysau cymdeithasol, galar, unigrwydd a.y.b. heb wahaniaethu na chreu ffiniau.

Yn olaf, caiff eglwys hyder pan ei bo’n bodoli i gyhoeddi diolchgarwch am y cymod â Duw a chymydog. Pan fo gras, maddeuant, a gobaith yng Nghrist yn aros yn ganolog – dyna pryd y cawn brofi’r angor arloesol yn ein cynnal. A ’sdim rhaid i bethau fod yn berffaith i fentro! Gydag ymrwymiad ysbrydol, cysylltu real a thosturiol, efallai wedyn y gwelwn ddatblygiad graddol a naturiol. Wedi’r cwbl, cawn ein trawsnewid o’r newydd gan ras bob tro y byddwn yn dyheu ac yn deisyf hynny. Felly mentrwn yn ffyddiog, heb ddigalonni!

**Sian Meinir**

(Nid yw’r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)



# Prosiect Denman 2026

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio’u dychymyg a’u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd), neu waith celf ar y thema:

## Ein hysgol Sul: ‘Newid ein byd er gwell’

Roedd Iesu yn gweithio i greu byd gwell i bawb. Roedd yn herio’r drefn ac yn gofyn i bobl garu ei gilydd. Dangosodd i ni sut oedd ymddwyn drwy esiampl ei fywyd ei hun. Sut ydych chi’n ceisio newid y byd er gwell? Beth mae eich ysgol Sul chi’n ei wneud i wella’n byd, i siarad dros heddwch, ac i wneud gwahaniaeth?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a’r cynnyrch celf at Margaret yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 4 Mehefin 2026.

Caiff cyflwyniad o’r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Abertawe ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Eglwysi yng Nghyfundeb Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog




Hoffem dynnu sylw rhai o eglwysi'r Annibynwyr o Langadog i Benygroes i'w hysbysu am gyfres o ddosbarthiadau Beiblaidd a gynhelir dros dymor y Grawys yn festri Gellimanwydd. Pan gynhaliwyd dosbarth yng Ngellimanwydd ddwy flynedd yn ôl dan arweiniad Carwyn Siddall, Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg fe ymunodd cyfeillion o eglwysi ein cyfundeb gyda ni. Mae'n braf medru estyn yr un croeso i'r cyfeillion hynny unwaith eto eleni.

Sylweddolwn fod yna ddosbarthiadau Beiblaidd mewn cylchoedd eraill ac nid ydym am darfu ar y rhai hynny. Dechrau ar arbrawf fydd y dosbarth a gynhelir yng Ngellimanwydd, a phe byddai diddordeb ac awydd i gynnal dosbarth Beiblaidd mewn cylch gwahanol o Langadog i Benygroes, gallwn edrych i mewn i'r posibilrwydd hwn i'r dyfodol. Does wybod beth fedr dyfu a datblygu o ddod ynghyd. Dyma fanylion y dosbarthiadau:-

## Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir dosbarth Beiblaidd yn Festri Gellimanwydd, Rhydaman yn nhymor y Grawys eleni ar Nos Fercher am 7pm. Y maes trafod fydd Damhegion y Deyrnas o eiddo Iesu yn Efengyl Mathew, pennod 13. Cynhelir pum sesiwn i gyd fel a ganlyn:

Nos Fercher 25 Chwefror – Dameg yr Heuwr

Nos Fercher 4 Mawrth – Dameg yr Efrau

Nos Fercher 11 Mawrth – Damhegion yr Hedyn Mwstard a'r Lefain

Nos Fercher 18 Mawrth – Damhegion y Trysor Cuddiedig a'r Perl Gwerthfawr

Nos Fercher 25 Mawrth – Dameg y Rhwyd

**Parchg. Emyr Gwyn Evans**

# BUGEILIO'N GILYDD

**'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braid'** (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**



Eglwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

## Cyngerdd Dathlu 300 Mlwyddiant Capel Heol Awst

**DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026**
**AM 6.00 YR HWYR**

**Artistiaid:**
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys

Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James Gweinidog

**Mynediad £10 wrth y drws**
**Plant ysgol am ddim**

*Croeso Cynnes i bawb*

Elw'r noson i'w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnonddrain

## Gwahoddiad i Encil

Dydd Mercher, Ebrill 22 – Dydd Iau, Ebrill 23
Yng Ngwesty Radison RED, Lerpwl

++++++++++++++++++++++++

Eleni, mae Encil y Gweinidogion yn ymweld â dinas Lerpwl, a charem eich gwahodd i ymuno â ni ar gyfer yr ail gymal.

Gofynnir am gyfraniad o £50 y person, a hynny'n cynnwys popeth a nodir yn yr amserlen isod.
Sylwch y bydd angen i bawb drefnu eu llety eu hunain.

I dderbyn y pecyn gwybodaeth, ac i gofrestru, cysylltwch â: carwyn@annibynwyr.cymru

*Croeso cynnes i bawb*



Nos Fercher, Ebrill 22

| | |
|---|---|
| 17:15 | Swper yng ngwesty Radison RED, Lerpwl |
| 19:30 | Darlith goffa Dr Pennar Davies a Dr Tudur Jones. 'Eglwys Rydd y Cymry' gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur |

Dydd Iau, Ebrill 23

| | |
|---|---|
| 09:00 | Defosiwn a Seminar yn trafod agweddau o'r Ddarlith Goffa |
| 10:15 | Cenhadaeth yr eglwys mewn cymuned aml-ffydd. Tystiolaeth eglwysi Lerpwl. |
| 11:00 | Defosiwn i gloi'r encil dan arweiniad y Parchedig Owain Llŷr |
| 11:30 | Cinio ac ymadael |

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*